

Cofnodion Pwyllgor 19.01.2021 - drwy 'Zoom'

Yn Bresennol

Cen Llwyd	Alun Davies (Yn y gadair)
Bryan Davies	Gareth Evans
Mary Davies	Aled Dafis
Bleddyn Davies	Ann Harris
Gareth Lloyd	

Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwr Cecil Jones.

Cofnodion

Cynigiwyd cofnodion mis Rhagfyr yn gywir gan y Cyng Cen Llwyd ac ategwyd hyn gan y Cyng Mary Davies.

Datgelu Buddiannau

Wnaeth y Cyng Bryan Davies ddatgan diddordeb ynglyn a'r ceirisadau cynllunio ynghyd a'r papur a dderbyniwyd oddi wrth Heledd Gwyndaf.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

Heledd Gwyndaf Nodwyd mae fersiwn drafft ydy'r ddogfen yma. Mae yna ymgyrch ar droed i gael cefnogaeth Cynghorau Cymunedol Cymru drwy'r ymgynghoriad yma cyn cyflwyno dogfen gorffenedig i Lywodraeth Cymru yn gofyn am newid y deddfau cysylltiedig. Cytunwyd ei bod yn ddogfen gynhwysfawr ac fod y Cyngor yn cefnogi'r galwad mewn egwyddor. Er hynny dylid nodi bod y cynigion yn radical iawn mewn lleoliadau i gymharu a beth sydd mewn lle ar hyn o bryd. Diolchwyd i'r Cyng Gareth Lloyd am ei sylwadau drwy e-bost sy'n rhoi man cychwyn da ar gyfer trafodaethau phellach. Cutynwyd y dylai'r Cynghorwyr rhoi ystyriaeth i'r ddogfen ac yna danfon ei sylwadau at sylw gweddill yr aelodau erbyn 29ain Ionawr. Mi fyddwn yn crynhoi'r sylwadau a llunio ymateb ffurfiol mis nesaf.



Cais i'r Cyngor
Cymuned.docx

Tudalen 'Facebook' Mae'r clerc wedi cysylltu gyda Un Llais Cymru am gyfarwyddid ynglyn a'r broses o sefydlu tudalen 'Facebook'.

Thwristiaeth a Chyflogaeth – Dogfen Cylch yr Iaith ynglyn â Chyflogaeth a Thwristiaeth – Wnaeth y Cyng Bryan Davies sylwad ynglyn a faint o bobl sy'n cael eu cyflogu yn y sector yma. Mi roedd hyn yn syndod i bawb.

Taliadau

Archwilio Cymru – tâl archwilio'r cyfrifon £285.25

Unrhyw Fater Arall

C.Ff.I. Caerwedros Nodwyd fod y rheoliadau ynglyn a'r lleiafrif o aelodau sydd angen i ymaelodu pob blwyddyn (6) wedi achosi gofid i swyddogion y clwb eleni. Mae NFYFC yn rheoli'r clwb ar hyn o bryd ac er y pandemig a'r rhwystrau ynglyn a diffyg medru cwrdd a chynnal gweithgareddau nid ydynt wedi dangos unrhyw dynerwch at y sefyllfa. Wnaeth y Cyngorwyr awgrymu y dylai swyddogion y Clwb gysylltu gyda aelodau Seneddol a'r Senedd mewn ymdrech i oresgyn y broblem yma sydd hefyd wedi effeithio nifer o clybiau eraill. Wnaeth y Cyng Bleddyn Davies hefyd hysbysu'r aelodau am noson agored rithiol i wneud a iechyd meddwl sy'n cael ei chynnal gan y Clwb nos Lun nesaf.

'Zoom' Penderfynwyd uchraddio i'r 'Zoom' proffesiynol. Mi fydd y clerc yn trefnu i brynu'r adnodd.